

Ddod yn Warchodwr Plant



Monmouthshire

Family Information Service

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd



Y Camau i Ddod yn Warchodwr Plant

Am fwy o wybodaeth am sut i ddod yn warchodwr plant a'r hyn sydd angen ei wneud, cysylltwch gyda Rachel D'Orsey, Swyddog Ymgysylltu Gofal Plant Sir Fynwy ar 01633 644527/childcare@monmouthshire.gov.uk a fydd yn medru darparu manylion i chi a chymorth un i un ar eich taith i ddod yn warchodwr plant.

Beth yw gwarchodwr plant?

Mae gofaluwr plant yn rhywun sydd yn gofalu am blant na sy'n perthyn iddynt, am fwy na dwy awr y diwrnod, a hynny am dâl neu wobr, yng nghartref y gwarchodwr plant. Mae'n anghyfreithlon os ydych yn ymgymryd ag unrhyw un o'r dyletswyddau yma heb gofrestru. Nid oes rhaid i chi gofrestru fel gwarchodwr plant os mai chi yw rhieni'r plentyn, yn berthynas agos, yn ofalwyr maeth (ar gyfer plant y maent yn maethu), yn gofalu am blentyn yng nghartref y plentyn, yn Nani neu'n ffrindiau sydd yn gofalu am y plentyn heb dderbyn tâl. Rhaid i warchodwr plant gael ei gofrestru a'i arolygu.

Y manteision o fod yn warchodwr plant:

Mae'r manteision o fod yn warchodwr plant yn cynnwys dewis eich oriau gwaith hyblyg eich hun, gweithio o'ch cartref eich hun, bod yn fos ar eich hun a datblygu'n broffesiynol.

Pwy ydych yn gofalu amdano?

Mae gwarchodwr plant cofrestredig yn medru gofalu am hyd at 10 plentyn o dan 12 mlwydd oed (ar unrhyw adeg). O'r 10 yma, ni ddylai mwy na 3 plentyn fod o dan oedran ysgol llawn amser. O'r 3 yma, ni ddylai mwy na 2 blentyn fod yn iau na 18 mis oed. Efallai fod y rhifau yma yn wahanol, gan ddibynnu ar faint eich eiddo. Rhaid i'r rhifau yma gynnwys eich plant eich hun. Nid oes rhaid i chi gofrestru er mwyn gofalu am blant sy'n hŷn na 12 mlwydd oed. Dylech ddefnyddio synnwyr cyffredin pan yn penderfynu faint o blant dros 12 mlwydd oed yr ydych am ofalu amdanynt.

Rheoli eich busnes gwarchod plant:

Cyn dechrau darllen am y broses gwarchod plant, bydd angen i chi ddechrau meddwl am y canlynol: · Pa ddiwrnodau ac oriau fyddwch chi'n gweithio · Faint fydd eich ffi bob awr· A fyddwch chi'n casglu ac yn gadael y plant yn yr ysgolion lleol a'r sefydliadau gofal plant · A fyddwch chi'n derbyn plant ag anghenion ychwanegol? · Sut y bydd eich partner a'ch plant yn delio gyda phlant eraill yn eich cartref? · A fydd y plant yn ddiogel ger eich anifeiliaid anwes? · Ble fyddwch chi'n storio eich teganau, cyfarpar ac adnoddau?

Darpariaeth Gofal Plant sydd yn eich ardal yn barod:

Mae'n bwysig i chi ystyried y darparwyr gofal plant sydd eisoes ar gael yn eich ardal ac a oes angen mwy? (Chiliwch www.monfis.org.uk am fanylion yr holl warchodwyr plant, gofal dydd, gofal ar ôl ysgol ayyb sydd ar gael yn Sir Fynwy).

Ystyriwch y bylchau o ran y ddarpariaeth gofal plant sydd yn eich ardal ac ystyriwch yr hyn yr ydych yn medru cynnig sydd yn wahanol i'r gweddill (gofal dros nos, gofal dros y penwythnos. Gostyngiadau i frodyr/chwiorydd ayyb...)? (Bydd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Sir Fynwy sydd ar gael yma - <https://www.monmouthshire.gov.uk/childcare-sufficiency-assessment/> - yn darparu'r wybodaeth hon i chi.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant:

Rhaid i'r holl warchodwyr plant cofrestredig gydymffurfio gyda'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae modd lawrlwytho'r rhain o <https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcareen.pdf>. Mae'r ddolen yn cynnwys manylion sydd yn ymwneud gyda chynllunio, cofnodion, gweithio gyda rhieni, lles, bwyd a diod, gweithdrefnau ariannol, sicrwydd ansawdd, cwynion, diogelu plant, cyfarpar, diogelwch a mwy.

Pwy y dylech eu hysbysu:

Os ydych yn byw mewn llety sydd yn cael ei rentu, rhaid i chi gael caniatâd ysgrifenedig gan eich Landlord er mwyn dangos eu bod yn hapus gyda'r ffaith eich bod yn defnyddio eich cartref fel busnes gwarchod plant.

Os ydych yn bwriadu defnyddio eich car er mwyn casglu neu ollwng plant, rhaid i chi i roi gwybod i'ch cwmni yswiriant car gan y bydd angen i chi gynnwys 'defnydd busnes' ar y polisi.

Bydd angen i chi wirio os yw eich yswiriant cartref yn cynnwys 'defnydd busnes'.

Efallai eich bod am gysylltu gyda'r Gwasanaeth Tân Lleol am wiriad o'r cyfarpar diogelwch yn eich tŷ, ac mae ar gael am ddim.

Bydd Tîm Iechyd Amgylcheddol Sir Fynwy yn cael eu hysbysu o'ch cofrestrriad. Maent yn medru cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i chi o ran bwyd, iechyd, hylendid, tymhered yr oergell ayyb. Mae modd cysylltu gyda hwy ar 01633 644609.

Pethau eraill i'w hystyried:

Fel gwarchodwr plant, byddwch yn hunangyflogedig. Rhaid i chi gofrestru fel person hunangyflogedig a chwblhau gwaith papur CThEM a chyflwyno datganiadau treth bob blwyddyn. Mae'r CThEM yn medru eich helpu i gwblhau'r ffurflenni. Bydd angen i chi dalu Yswiriant Cenedlaethol hefyd.

Ystyriwch gynllunio - yr hyn sydd angen ar gyfer plant o oedran gwahanol, datblygiad plant, ymddygiad, prydau bwyd ayyb. Bydd templedi a chanllawiau cynllunio yn cael eu cynnwys yn y pecyn dechrau cofrestru

Rhaid sicrhau bod yna weithdrefnau diogelwch yn eu lle gan gynnwys larymau tân, pethau sy'n diogelu plant rhag y tân ayyb. Byddwch yn medru hawlio hyd at £100 o Flynyddoedd Cynnar Sir Fynwy ar gyfer cyfarpar diogelwch.

Y Broses Gwarchod Plant: Er mwyn dod yn warchodwr plant, rhaid i chi:

Cwblhau'r Cwrs Gwarchod Plant IHC a'r PCP

Bydd y sawl sydd am ddod yn warchodwr plant cofrestredig yng Nghymru yn gorfod cwblhau'r uned Cyflwyniad i Warchod Plant yn y Cartref a'r uned Paratoi ar gyfer Practis Gwarchod Plant. Mae'r sawl sydd yn dymuno dod yn nani gymeradwy yng Nghymru ond yn gorfod cwblhau'r uned Cyflwyniad i Warchod Plant yn y Cartref.

Mae pecyn hyfforddi cyn-cofrestru fel Gwarchodwr Plant yn cynnwys Uned 326 Cyflwyniad i Warchod Plant yn y Cartref (IHC), ac Uned 327 Paratoi ar gyfer Practis Gwarchod Plant (PCP).

Mae'r dysgwr yn defnyddio deunyddiau ar-lein ar gyfer y cwrs hwn. Bydd y dysgwr ond yn derbyn cefnogaeth gan yn yr aseswr yn ystod y cwrs.

Pecyn hyfforddi cyn-cofrestru fel Gwarchodwr Plant (ar gael ar-lein yn unig ar hyn o bryd):

Cyflenwi: hyfforddi ac astudio hunangyfeiriedig ar-lein

Asesiad: Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu drwy:

Uned 326: cwblhau portffolio o dystiolaeth drwy gyfrwng llyfryn gwaith.

Uned 327: Trafodaeth broffesiynol sydd yn seiliedig ar y portffolio o waith sydd yn cael ei gwblhau er mwyn cefnogi'r broses o gofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru

Cost: £300 (£360 gan gynnwys TAW) y dysgwr. Nid oes rhaid cwblhau'r cwrs o fewn cyfnod penodol.

Mae'r cwrs yn costio £360 i'w gwblhau a rhaid i'r unigolyn i dalu hyn. **Efallai y bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn medru cynnig ad-daliad am ran neu'r cwrs cyfan, a hynny ar ôl i chi gofrestru fel gwarchodwr plant.**

Y Professional Association of Childcare and Early Years (PACEY) yw'r mudiad sydd yn darparu'r cwrs. Mae modd cysylltu gyda hwy ar 0845 880 1299 neu paceycymru@pacey.org.uk

Cwblhau Tystysgrif Cymorth Cyntaf, Diogelwch Bwrdd a Diogelu:

Mae'r manylion ynglŷn â gofynion y cyrsiau a rhestr o'r darparwyr hyfforddiant ar gael yma - <https://www.monmouthshire.gov.uk/training-for-childcare-providers/>

Gofyn am Eirda gan y Meddyg Teulu:

Bydd angen i chi gael geirda gan eich Meddyg Teulu yn nodi eich bod yn 'ffit i weithio'. Efallai y bydd rhaid talu ffi am hyn.

Cwblhau'r Ffurflen Gais ar gyfer Cofrestru fel Gwarchodwr Plant:

Rhaid i chi gofrestru fel gwarchodwr plant gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW). Er mwyn cwblhau'r ffurflen ar-lein, ewch os gwelwch yn dda i <https://careinspectorate.wales/register-childcare-and-play-service>

Cwblhewch y ffurflen gyda chymaint o wybodaeth ag sydd yn bosib a bydd angen sicrhau bod y wybodaeth yn gywir. Bydd unrhyw fylchau yn medru golygu y bydd y ffurflen yn cael ei dychwelyd atoch gan eich gosod ar ddiwedd y rhestr brosesi. Mae hyn yn cynnwys nodi dyddiadau pan oeddech yn gweithio. Dylech gynnwys unrhyw gyfnodau hefyd lle nad ydych wedi bod yn gweithio.

Cwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS):

Bydd angen unrhyw aelod o'ch tŷ sydd yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn i gwblhau Gwiriad DBS. Nid oes ots pa wiriadau DBS sydd wedi eu gwneud fel rhan o'ch rolau eraill. Bydd angen i chi dalu am y gost o gwblhau'r gwiriadau yma.

Rydych yn medru cwblhau eich gwiriad DBS yma

<https://careinspectorate.wales/disclosure-and-barring-service-dbs-checks>

Ymweliad Cofrestru AGC (CIW):

Wedi i'ch cais gael ei gymeradwyo, bydd yr AGC yn trefnu ymweld gyda'ch tŷ ar gyfer arolygiad cyn-cofrestru. Bydd hyn er mwyn gwirio eich tŷ a'ch gardd er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer busnes gwarchod plant. Bydd yr AGC yn gwirio'r holl weithdrefnau diogelwch ac yn cadarnhau a ydych wedi ystyried yr holl agweddau

cynllunio o'r broses. Unwaith eich bod wedi cofrestru, bydd yr AGC yn ymweld gyda'ch cartref bob tair blynedd ac yn paratoi adroddiad o'u canfyddiadau.

Gwneud Cais am Becyn Dechrau Ansawdd PACEY:

Mae pecyn dechrau ar gael wrth i chi nesáu at y broses o gofrestru fel gwarchodwr plant. Mae'r pecyn yn cynnwys eich yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn gyntaf, aelodaeth o PACEY am flwyddyn, llyfr arian a chofrestr ar gyfer presenoldeb, llyfr damwain/digwyddiadau, cysylltiadau gwarchod plant a ffurflen cofnodi plant. Bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn talu'r holl gostau am y pecyn yma.

Cysylltwch gyda Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy, sef clairemorgan2@monmouthshire.gov.uk am ffurflen gais.

Grant Cyfarpar Diogelwch £100:

Mae Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn medru darparu grant i chi ar gyfer cyfarpar diogelwch ar ôl i chi gofrestru. Mae hyn cynnwys clwydi ar gyfer y grisiau, offer i ddiogelu plant rhag y tân, seddi ceir ayyb.

Mae unrhyw beth sydd yn cael ei brynu yn ystod y broses yn medru cael ei hawlio (hyd at £100) ar ôl chi gofrestru. Dylech ddanfôn pob un dderbynneb at clairemorgan2@monmouthshire.gov.uk clairemorgan2@monmouthshire.gov.uk

Cefnogaeth Cyn-cofrestru:

Yn cael ei gefnogi gan Flynyddoedd Cynnar Sir Fynwy, mae PACEY Cymru yn medru cynnig gwasanaeth cymorth gwrthrychol dros y ffôn neu ar e-bost i'r holl warchodwyr plant yn Sir Fynwy cyn iddynt gofrestru. Os ydych am dderbyn help neu am gyngor gyda chwblhau eich polisiau, gweithdrefnau a cheisiadau, yna cysylltwch gydag Elinor Stafford - elinor.stafford@pacey.org.uk neu ffoniwch 02920 351407.

Derbyn Eich Rhif Cofrestru:

Wedi'r arolwg o'ch cartref ac wedi i chi dderbyn eich pecyn dechrau, byddwch yn derbyn eich rhif cofrestru ac yn dod yn warchodwr plant cofrestredig. Byddwch nawr yn medru gwarchod unrhyw blant sydd ar eich rhestr aros neu hysbysebu eich gwasanaeth gwarchod plant.

Hysbysu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Fynwy:

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Fynwy (MonFIS) yw'r unig wasanaeth sydd yn cadw cofnod o'r holl ddarparwyr gofal plant cofrestredig yn y Sir. Mae'r AGC yn hysbysu MonFIS cyn gynted ag y bydd darparwr yn cofrestru. Cysylltwch os gwelwch yn dda gyda MonFIS ar 01633 644527 neu drwy e-bostio childcare@monmouthshire.gov.uk er mwyn cofrestru eich manylion. Bydd eich gwasanaeth wedyn yn cael ei hyrwyddo, gyda'r darparwyr gofal plant eraill, yma ar www.monfis.org.uk ac ar eich tudalennau cyfryngau cymdeithasol os yn briodol. Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth hon i MonFIS yn flynyddol. Bydd angen y wybodaeth ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal sydd ei angen ar Lywodraeth Cymru.

Cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaeth (ICO)

Mae'r Ddeddf GDPR 2018 yn golygu bod yn rhaid i fusnesau i roi gwybod i'r ICO os ydych yn prosesu gwybodaeth bersonol ar gyfer darparu gofal plant. Mae hyn yn cynnwys enwau, cyfeiriadau, cyflyrau meddygol a'n tynnu lluniau o'r plant yn eich gofal gan ddefnyddio camera digidol. Mae methu hysbysu'r ICO yn drosedd a byddwch yn tramgwyddo Deddf GDPR 2018. Rydych yn medru cofrestru yma <http://ico.org.uk> am gost flynyddol o £40.